Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Polisi Adolygu / Cwynion amdanom ni

## Cynnwys

1 Sut i wneud cais am adolygu penderfyniad rydym wedi ei wneud *neu* wneud sylw neu gwyno am ein gwasanaeth ............................. 1

2 Proses Adolygu Achos - pan rydych yn anfodlon ar ein penderfyniad ........................................................................................ 1

3 Proses Cwyno Amdanom ni - pan rydych yn anfodlon ar ein penderfyniad ........................................................................................ 2

Gwneud cais am adolygu penderfyniad rydym wedi ei wneud *neu* wneud sylw neu wneud cwyn am ein gwasanaeth ......................... 12

# 1 Sut i wneud cais am adolygu penderfyniad rydym wedi ei wneud *neu* wneud sylw neu gwyno am ein gwasanaeth

Ein nod yw darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i Gymru ac rydym yn croesawu adborth ar eich profiad cadarnhaol o'r gwasanaeth.

Er hynny, rydym yn cydnabod y bydd sefyllfaoedd yn codi pan fydd achwynwyr yn anfodlon ar ein penderfyniadau neu ar y gwasanaeth rydym wedi ei ddarparu. Mae gennym ddau broses ar wahân i ddelio â phryderon o'r fath. Fe'u hesbonnir isod.

# 2 Proses Adolygu Achos - pan rydych yn anfodlon ar ein penderfyniad

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen amgaeedig i ofyn am adolygu penderfyniad rydym wedi ei wneud i beidio ymchwilio i'ch cwyn, i beidio â pharhau ag ymchwiliad neu pan rydych yn ystyried bod penderfyniadau rydym wedi eu gwneud yn dilyn ymchwiliad yn ddiffygiol.

**Ni allwn adolygu penderfyniad am nad ydych yn cytuno ag ef yn unig.**

Mae'n rhaid i chi gael **tystiolaeth newydd** neu allu dangos **na wnaethom ystyried tystiolaeth benodol** oedd ar gael, neu ni fyddwn yn gallu delio â'ch cais am adolygiad.

Ceir mwy o wybodaeth am y Broses Adolygu Achos yma.

Os ydych eisiau gwneud cais am adolygu penderfyniad achos, cwblhewch adrannau A, B, D ac F ar y ffurflen.

## 3 Proses Cwyno Amdanom ni - pan rydych yn anfodlon ar ein penderfyniad

Fel rhan o'n hymrwymiad gwasanaeth, ein nod yw:

- darparu proses, hygyrch, syml, effeithiol a thryloyw o ymchwilio i gwynion am y gwasanaeth rydym yn ei roi:
- cwrdd ag anghenion Safonau'r Gymraeg
- ymateb yn sydyn i gwynion am y gwasanaeth rydym wedi ei ddarparu; ac,
- os ydym wedi gwneud rhywbeth o'i le neu wedi cynnig gwasanaeth gwael, ymddiheuro a dysgu o'n camgymeriadau.

Hoffem glywed eich sylwadau a'ch pryderon am y gwasanaeth rydym wedi ei ddarparu, gan gynnwys sylwadau neu bryderon am ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg.

Ar gyfer cwynion am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, rydym yn sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant o ran ein dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg a sut i gyfathrebu'n fewnol unrhyw gwynion sydd yn ymwneud â'r safonau hynny. Wrth ymchwilio, byddwn yn cynnwys staff perthnasol sydd â chyfrifoldeb a gwybodaeth am y Safonau perthnasol, a byddwn yn cynnig hyfforddiant pellach iddynt o ran sut i ymchwilio i gwynion o'r fath os oes angen. Byddwn yn rhoi gwybod i'r staff perthnasol o ganlyniad unrhyw gŵyn fel y gallant gymryd camau adferol ar unwaith.

## Datrys yn Anffurfiol

Os yn bosib, rydym o'r farn ei bod yn well delio â phethau yn syth yn hytrach na cheisio datrys y broblem yn hwyrach ymlaen. Os oes gennych bryder, codwch ef gyda'r swyddog rydych yn delio ag ef. Bydd yn ceisio ei ddatrys i chi yn y fan a'r lle. Os nad yw'r aelod o staff yn gallu helpu bydd yn esbonio pam. Wedyn, gallwch ofyn am ymchwiliad ffurfiol.

## Ymchwiliad Ffurfiol

Os na lwyddwyd i ddatrys y mater yn anffurfiol, gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am ymchwiliad ffurfiol i'ch cwyn am ein gwasanaeth. Bydd uwch reolwr sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth perthnasol yn cynnal ymchwiliad yn fewnol. Os gwelwch yn dda, cwblhewch adrannau A, B, E ac F.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hefyd i wneud sylwadau am ein gwasanaeth.

## Beth os oes angen cymorth arna i?

Bwriad ein staff yw eich cynorthwyo i fynegi eich pryderon i ni. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi, ceisiwn eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun sy'n gallu helpu.

**Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol os yw'r mater yn ymwneud â phenderfyniad Rhyddid Gwybodaeth neu Ddiogelu Data.**

Dan yr amgylchiadau hyn, dylech gysylltu â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yr Ombwdsmon drwy ebostio cais.gwybodaeth@ombwdsmon.cymru neu drwy ysgrifennu at:

Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth,
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Mae copïau o'r polisi hwn a'r ffurflen gwyno ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a gellir eu darparu mewn fformat sain neu mewn fformat print bras.

**Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg.  Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.**

| Gallwch ddefnyddio'r polisi hwn a'r ffurflen amgaeëdig | | |
|---|---|---|
| | **I wneud cais am adolygu penderfyniad rydym wedi ei** | **I wneud sylwadau neu i gwyno am ein gwasanaeth** |
| **Er enghraifft…** | Pan nad ydych yn cytuno â'r canlynol:<br><br>ein penderfyniad i beidio ymchwilio i'ch cwyn am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus<br><br>ein penderfyniad i beidio â pharhau ag ymchwiliad rydym eisoes wedi ei ddechrau i ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus<br><br>ein canfyddiadau yn dilyn ymchwiliad i'ch cwyn am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus. | Pan rydych yn dymuno gwneud sylwadau ar y gwasanaeth rydym wedi ei ddarparu, neu<br><br>pan rydych yn teimlo ein bod wedi:<br><br>eich trin yn annheg neu'n anghwrtais<br><br>methu esbonio pethau'n glir<br><br>achosi oedi afresymol<br><br>methu gwneud yr hyn rydym wedi dweud y byddem yn ei wneud<br><br>methu dilyn ein prosesau'n gywir<br><br>methu cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg neu gwrdd â'ch anghenion iaith Gymraeg chi. |

| | | |
|---|---|---|
| **A phan…** | Mae'r penderfyniad rydych yn dymuno iddo gael ei adolygu wedi ei wneud yn y **20 diwrnod gwaith diwethaf** **ac**<br><br>mae gennych dystiolaeth neu wybodaeth newydd ac ychwanegol, neu<br><br>gallwch ddangos nad ydym wedi ystyried yn iawn rhyw wybodaeth benodol rydych wedi ei darparu ynghynt.<br><br>(Os ydych yn gwneud eich cais yn hwyrach na 20 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad, bydd rhaid i chi ddweud pam, er mwyn i ni allu penderfynu a ydym yn gallu parhau i ystyried eich cais). | Rydych wedi ceisio datrys hyn yn anffurfiol gydag aelod o staff yr Ombwdsmon yr ydych wedi bod yn delio ag ef; ac<br><br>mae eich cwyn yn ymwneud â rhywbeth sydd wedi digwydd o fewn mis; ac<br><br>os ydych yn mynegi pryder ar ran rhywun arall, rydych wedi dangos i ni eu bod yn cytuno y gallwch weithredu ar eu rhan<br><br>neu mae gennych sylw yr hoffech ei wneud am ein gwasanaeth. |

| Sut i gwyno neu wneud sylwadau |
| --- |
| Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ar ein gwefan www.ombwdsmon.cymru<br><br>Gallwch gwblhau'r copi amgaeëdig o'r ffurflen a'i ebostio atom yn adborth@ombwdsmon.cymru neu ysgrifennu llythyr atom yn:<br><br>Y Tîm Adborth<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5LJ<br><br>Os ydych eisiau gwneud eich cwyn dros y ffôn, neu'n ei chael yn anodd ysgrifennu atom neu gwblhau'r ffurflen, gallwch gysylltu â'n Tîm Adborth drwy ffonio 01656 641161.<br><br>Gallwch hefyd ofyn i'r swyddog yr ydych eisoes mewn cysylltiad ag ef drefnu i ddelio â'ch pryder, sylw neu gais am adolygiad mewn dull ffurfiol.<br><br>Os gwelwch yn dda gadewch i ni wybod sut yr hoffech i ni ohebu â chi ac a oes gennych unrhyw ofynion arbennig – er enghraifft, os oes gennych anabledd. |

| Beth fydd yn digwydd nesaf? | | |
|---|---|---|
| | **Os ydych wedi gwneud cais am adolygu penderfyniad rydym wedi ei wneud** | **Os ydych wedi gwneud cwyn am ein gwasanaeth** |
| **Pan fyddwn yn derbyn y ffurflen, byddwn yn...** | cydnabod yn ffurfiol eich cais am adolygiad o fewn **5 diwrnod gwaith**, a<br><br>trefnu i'r Swyddog Adolygu ystyried eich cais neu drefnu i uwch aelod arall o staff, sydd ddim wedi bod yn ymwneud â'r achos o'r blaen, ei ystyried ac<br><br>ysgrifennu atoch gyda'r canlyniad o fewn **20 diwrnod gwaith.** | cydnabod eich pryder yn ffurfiol o fewn **5 diwrnod gwaith** a gadael i chi wybod sut rydym yn bwriadu delio ag ef.<br><br>delio â'ch pryder mewn modd agored a gonest.<br><br>gwneud yn siŵr nad yw eich cyswllt â ni yn y dyfodol yn dioddef oherwydd eich bod wedi mynegi pryder neu wneud cwyn.<br><br>ystyried eich cwyn yn ofalus a phenderfynu a fyddwn yn ymchwilio iddi a sut.<br><br>**Os ydym yn bwriadu ymchwilio i'ch pryderon am ein gwasanaeth...**<br><br>byddwn yn egluro i chi ein dealltwriaeth o'ch pryderon a dweud wrthych pwy fydd yn ymchwilio iddynt.<br><br>ymchwilio gan ddefnyddio ffeiliau, recordiadau, nodiadau trafodaethau, llythyrau, ebyst ac ati sydd gennym. Byddwn yn siarad â staff sy'n gysylltiedig ac yn edrych ar y ddeddfwriaeth berthnasol a'n polisïau.<br><br>ceisio datrys eich cwyn os yw hynny'n bosibl. Ysgrifennu atoch gyda'r canlyniad o fewn **20 diwrnod gwaith** neu er mwyn esbonio'r rhesymau pam nad yw hyn yn bosib. |

| | | |
|---|---|---|
| **Efallai mai'r canlyniad fydd...** | Ein bod yn cytuno i ailystyried yr achos a'i basio i dîm ymchwilio er mwyn ymchwilio neu ymchwilio ymhellach iddo; neu<br><br>Ein bod yn cytuno i agor achos newydd er mwyn ystyried rhagor o wybodaeth; neu<br><br>Ein bod yn cynnig camau pellach i'r darparwr gwasanaeth eu cymryd er mwyn datrys eich cwyn; neu<br><br>Ein bod yn cadarnhau ein penderfyniad blaenorol | Os ydym yn ymchwilio yn ffurfiol i'ch cwyn, byddwn yn eich hysbysu o'n canfyddiadau, fel arfer yn ysgrifenedig ac o fewn **20 diwrnod gwaith**<br><br>Byddwn yn esbonio sut a pham y daethom i'n casgliadau<br><br>Os ydym yn canfod ein bod ar fai, byddwn yn dweud wrthych beth aeth o'i le a pham y digwyddodd hyn.<br><br>Byddwn yn ystyried sut roedd y camgymeriad wedi effeithio arnoch.<br><br>Os ydym yn darganfod bod diffyg yn ein systemau neu'r ffordd rydym yn gwneud pethau, byddwn yn dweud wrthych am y diffyg a sut y bwriadwn newid pethau er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.<br><br>Os oeddem ar fai, byddwn bob amser yn ymddiheuro.<br><br>Os ydym yn penderfynu peidio ymchwilio i'ch cwyn am ein gwasanaeth byddwn yn esbonio pam, yn ysgrifenedig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon…** | Mae penderfyniad sy’n seiliedig ar adolygiad yn derfynol ac nid oes proses apelio na phroses adolygu pellach.<br><br>Oni bai eich bod yn codi unrhyw faterion eraill ar ôl hynny rydym ni’n eu hystyried yn arwyddocaol, ni fyddwn yn gallu trafod materion nac ymateb i chi ymhellach.<br><br>Ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn hon i gwyno am benderfyniad yn seiliedig ar adolygiad.<br><br>Efallai bod opsiynau cyfreithiol eraill ar gael i chi ac efallai y byddwch yn dymuno cymryd cyngor cyfreithiol.. | Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y llywodraeth ac nid yw'n cael ei oruchwylio gan reoleiddiwr.<br><br>Er hynny, er mwyn sicrhau ein bod yn agored i graffu ac adolygiad yn ein hymdriniaeth o gwynion yn ein herbyn, rydym wedi penodi Adolygwr Allanol Annibynnol (AAA) i edrych ar gwynion am ein gwasanaeth.<br><br>Os nad ydym yn llwyddo i ddatrys eich cwyn, gallwch gysylltu â'r Adolygwr Allanol Annibynnol - Claire.Evans@ombwdsmon.cymru<br><br>Bydd yr AAA yn ystyried a yw'n bosib adolygu eich cwyn am ein gwasanaeth.  Bydd wedyn yn ysgrifennu atoch.<br><br>Bydd yr Ombwdsmon yn ystyried unrhyw argymhellion neu awgrymiadau gan yr AAA a bydd yn eich hysbysu o unrhyw benderfyniadau. |

| | |
|---|---|
| **Os oes gwersi y dylen ni eu dysgu...** | Rydym yn gwneud ein gorau i ddysgu o unrhyw gamgymeriadau.<br><br>Mae ein tîm rheoli yn ystyried yn gyson ceisiadau adolygu sydd wedi arwain at wyrdroi penderfyniad neu at adnabod unrhyw broblem arall.<br><br>Maent hefyd yn ystyried yn rheolaidd crynodeb o'r holl gwynion am ein gwasanaeth a manylion am unrhyw gwynion difrifol.<br><br>Mae cwynion am ein gwasanaeth hefyd yn cael eu mynegi yn flynyddol i Banel Cynghori'r Ombwdsmon, sydd yn cynnwys llawer o aelodau annibynnol (dim gweithwyr yr Ombwdsmon).<br><br>Pan fo angen gwneud newidiadau, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu yn nodi'r hyn rydym yn mynd i'w wneud, pwy fydd yn ei wneud ac erbyn pryd y byddwn yn gwneud hynny. |
| Gallwch hefyd gael gafael ar y polisi hwn a chwblhau'r ffurflen ar-lein - os gwelwch yn dda, cliciwch yma. | |

| I'w gyhoeddi: | Nodwch IE neu NA ar gyfer bob un |
|---|---|
| ar wefan OGCC | IE |
| ar fewnrwyd OGCC | IE |
| yng nghynllun cyhoeddi OGCC | IE |

# Gwneud cais am adolygu penderfyniad rydym wedi ei wneud neu wneud sylw neu wneud cwyn am ein gwasanaeth

| **Adran A –** Eich Manylion | |
|---|---|
| Yn arferol, dylai'r person sydd wedi gwneud y gŵyn am y corff cyhoeddus neu sydd wedi cael y broblem gyda'n gwasanaeth, lenwi'r ffurflen hon.<br>Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, os gwelwch yn dda cwblhewch **Adran B** hefyd. | |
| Eich Enw yn Llawn | |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Ebost | |

**Os ydych yn darparu cyfeiriad ebost, byddwn fel arfer yn ei ddefnyddio ar gyfer gohebiaeth.**

| | |
|---|---|
| Rhif cyswllt yn ystod y dydd | |
| Rhif ffôn symudol | |
| Cyfeirnod (au) achos yr Ombwdsmon os gwyddys | |

| **Adran B Os ydych yn gwneud cais am adolygiad a/neu'n gwneud sylw / cwyn ar ran rhywun arall, os gwelwch yn dda darparwch eu manylion** | |
|---|---|
| Eu henw yn Llawn | |
| Eu cyfeiriad | |
| Beth yw eich perthynas â hwy? | |
| Pam ydych yn gweithredu ar eu rhan? | |
| **Os ydynt yn gallu, dylent lofnodi yma i gadarnhau eu bod yn cefnogi eich cam i wneud cais / cwyn** | |
| Eu llofnod | |

## Adran C Sut i gwblhau'r ffurflen hon

Ydych chi eisiau gofyn i ni adolygu penderfyniad gan yr Ombwdsmon ynghylch cwyn sy'n ymwneud â chorff cyhoeddus arall?

**YDW** →

Cwblhewch adrannau D ac F

Ydych chi eisiau gwneud sylw neu wneud cwyn am safon y gwasanaeth rydych wedi ei gael gennym?

**YDW** →

Cwblhewch adrannau E ac F

| Adran D Eich cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan yr Ombwdsmon |
|---|
| Beth oedd dyddiad ein penderfyniad? |
| Os oes mwy na 20 diwrnod gwaith wedi mynd heibio, os gwelwch yn dda esboniwch pam fod eich cais am adolygiad wedi'i oedi. |
| Beth ydych eisiau i'r adolygiad edrych arno? |
| Pa dystiolaeth newydd sydd gennych chi? |

Yn eich barn chi, pa dystiolaeth nad ydym wedi ei hystyried a sut mae hyn wedi effeithio ar ein penderfyniad? Gallwch barhau ar daflen ar wahân os bydd angen.

**Byddwch angen gwneud hyn ar gyfer pob agwedd ar eich cais am adolygiad.**

**Cofiwch: ni fyddwn yn gallu edrych ar eich cais am adolygiad os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad yn unig.**

Os oes gennych ddogfennau i gefnogi eich cais, os gwelwch yn dda darparwch hwy gyda'r ffurflen hon.

| Adran E  Eich sylw neu gŵyn am y gwasanaeth sydd wedi'i ddarparu gan yr Ombwdsmon |
|---|
| Beth yw eich sylw neu eich cwyn am wasanaeth yr Ombwdsmon? |
| Sut wnaeth hyn effeithio arnoch? |
| Pryd ddigwyddodd hyn? |
| Ydych chi wedi codi hyn yn anffurfiol? |
| Gyda phwy wnaethoch chi ddelio? |
| Sut gallwn ni gywiro'r sefyllfa neu wella ein gwasanaeth? |

**Os oes gennych ddogfennau i gefnogi eich sylw neu gŵyn, os gwelwch yn dda cyflwynwch hwy gyda'r ffurflen hon.**

| Adran F Os gwelwch yn dda, rhestrwch unrhyw ddogfennau rydych yn eu hanfon atom neu nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yma |
| --- |
| |

**Pan rydych wedi cwblhau'r ffurflen hon, naill ai:**

| | |
| --- | --- |
| Ebostiwch hi at: | adborth@ombwdsmon.cymru |
| Neu argraffwch hi a'i hanfon at: | Y Tîm Adborth<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>1 Ffordd yr Hen Gae Pencoed Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ |

**Byddwn yn cydnabod eich ffurflen o fewn 5 diwrnod gwaith i'w derbyn.**